

## DISGRIFIAD SWYDD

<b>TEITL SWYDD</b>	Gweithiwr Cefnogol Therapiwtig
<b>CYFRIFOL I</b>	Arweinydd Tim Arfon
<b>LLEOLIAD</b>	Caernarfon
<b>ORIAU</b>	37 awr yr wythnos
<b>CYFLOG</b>	B2: £17,526 - £18,782
<b>CYSGU MEWN</b>	£40 y noson yn ystod yr wythnos (Llun i Iau) £50 y noson ar y penwythnos (Gwener i Sul) £60 y noson cyn gŵyl y banc
<b>CYTUNDEB</b>	tan 31.03.2023

### PRIF BWRPAS Y SWYDD

Cefnogi pobl ifanc, yn cynnwys rhieni ifanc, sydd yn agored i niwed, i fyw'n annibynnol. Cynnig cefnogaeth person-ganolog i bobl ifanc bregus i'w cynorthwyo i gadw tenantiaeth, dysgu sgiliau byw'n annibynnol, datblygu iechyd a lles ac adeiladu gwydnwch.

### CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL

- ⇒ I weithio o fewn fframwaith PIE (Psychologically Informed Environment), yn unol â Model Therapiwtig GISDA.
- ⇒ Staff i gael dealltwriaeth o drawma, ymlyniad ac anhwylderau personoliaeth.
- ⇒ I adeiladu perthynas gref, iach a chyfeillgar gyda pobl ifanc gan roi'r cyfle iddynt ymgysylltu a mynegi eu hunain mewn awyrgylch ffurfiol ac anffurfiol.
- ⇒ I greu awyrgylch di-sefydliad, diogel a chroesawgar sydd yn rhoi cyfle i bobl ifanc drafod a mynegi eu teimladau/pryderon.
- ⇒ I hyrwyddo ac annog pobl ifanc i ofalu am eu lles eu hunain a bod yn fwy annibynnol.
- ⇒ I annog, ysgogi a chredu mewn pobl ifanc.
- ⇒ Cyfrannu tuag at gwblhau cynlluniau cefnogaeth person ifanc.
- ⇒ Trefnu a chynnal gweithgareddau gyda pobl ifanc yn unol â'r cynllun cefnogaeth e.e. sesiynnau coginio, beicio, adeiladu hyder, mynd am dro.
- ⇒ Cefnogi pobl ifanc i gadw eu llety yn drefnus yn unol â'r safonau disgwylidig.
- ⇒ Cefnogi pobl ifanc i gadw at delerau eu tenantiaeth.
- ⇒ Cefnogi pobl ifanc i gyllido yn effeithiol.
- ⇒ Cefnogi pobl ifanc i fewn i waith, hyfforddiant neu addysg.
- ⇒ Cefnogi pobl ifanc i wneud defnydd o'r Gwasanaethau Iechyd a Lles.
- ⇒ Cefnogi pobl ifanc i achredu eu sgiliau cadw tenantiaeth, cyllido a choginio.
- ⇒ Cefnogi pobl ifanc i symud ymlaen i lety parhaol.
- ⇒ Sicrhau bod cofnodion effeithiol yn cael eu cadw o bob cyswllt gyda'r defnyddwyr gwasanaeth.
- ⇒ Tracio cynnydd y bobl ifanc wedi iddynt adael y gwasanaeth.

- ⇒ Cyfrannu tuag at redeg a chynnal y llety sydd ar gael i bobl ifanc y prosiect.
- ⇒ Cefnogi Gweithwyr Allweddol i ddatblygu'r gwasanaeth yn unol âg anghenion pobl ifanc.
- ⇒ Darparu cefnogaeth cysgu mewn ar rota yr hosteli.

#### **CYFRIFOLDEBAU ERAILL**

- ⇒ Cynnal, cadw a datblygu systemau recordio clir a chywir.
- ⇒ Bod yn gyfrifol, ar y cyd â gweithwyr eraill y prosiect, am fonitro ac adolygu holl weithgaredd y prosiect.
- ⇒ Sicrhau fod yr holl wybodaeth ystadegol a monitro yn cael ei fewnbynnu i'r cyfrifiadur yn rheolaidd.
- ⇒ Annog pobl ifanc i gymryd rhan weithredol yn natblygiad y gwasanaeth a'r gyfundrefn.
- ⇒ Cydweithio gyda holl staff y cwmni i hybu cyfuno gwasanaeth y cynllun a'r gwasanaethau eraill a gynnigir gan GISDA.
- ⇒ Cynrychioli GISDA mewn cyfarfodydd allanol ar gais Rheolwr y Prosiect.
- ⇒ Hyrwyddo gwasanaethau GISDA.
- ⇒ Darparu adroddiadau ysgrifenedig ar gyfer cynulleidfaoedd mewnol ac allanol ar gais Rheolwr y Prosiect.
- ⇒ Datblygu partneriaethau gydag asiantaethau eraill er mwyn datblygu'r gwasanaeth i gefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd.
- ⇒ Sicrhau fod y defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwasanaeth gorau bosib.

#### **CYFRIFOLDEBAU CYFFREDINOL**

- ⇒ Cyfrannu tuag at hyfforddiant a datblygiad personol eich hun.
- ⇒ Hyrwyddo agwedd gyfeillgar, anfarnol, gwrth-wahaniaethol ym mhob agwedd o'r gwaith tuag at ddefnyddwyr gwasanaeth, cyd-weithwyr, aelodau o'r Bwrdd Rheoli ac aelodau o'r cyhoedd / asiantaethau eraill.
- ⇒ Hyrwyddo gwerthoedd a diwylliant mewnol y Cwmni.
- ⇒ Hyrwyddo nod ac amcanion y Cwmni.
- ⇒ Ymgymryd ag unrhyw dasgau rhesymol yn ôl yr angen.
- ⇒ Ymlynu at holl bolisiâu a gweithdrefnau cyfredol y Cwmni.
- ⇒ Cyfrannu at sesiynau arolygaeth.
- ⇒ Cadw holl wybodaeth sy'n berthnasol i'r Cwmni, y staff a defnyddwyr gwasanaeth y Cwmni yn gyfrinachol.
- ⇒ Gweithio yn unol a Cod Ymarfer Cyngor Gofal Cymru.
- ⇒ Ymgymryd ag unrhyw dasgau rhesymol yn ôl yr angen.

<b>MANYLDEB PERSON</b>			
<b>MEINI PRAWF</b>	<b>HANFODOL</b>	<b>DYMUNOL</b>	<b>DULL ASESU</b>
<b>Addysg a Chymhwysterau</b>	Addysg yn cyfateb i o leiaf NVQ2, TGAU A-C.	Cymhwyster ym maes plant a phobl ifanc.	Ffurflen Gais a Thystysgrifau
<b>Profiad Perthnasol i Swydd</b>	Profiad o waith cefnogol	Profiad ym maes plant a phobl ifanc.	Ffurflen Gais a Chyfweliad
		Profiad o rwydweithio/gweithio mewn partneriaeth.	Ffurflen Gais a Chyfweliad
<b>Gwybodaeth Perthnasol i Swydd</b>	Ymwybyddiaeth o ffiniau yn y maes cefnogaeth	Gwybodaeth am y system budd-daliadau.	Ffurflen Gais a Chyfweliad
	Ymwybyddiaeth o faterion amddiffyn plant		Ffurflen Gais a Chyfweliad
	Ymwybyddiaeth o anghenion pobl ifanc bregus		Ffurflen Gais a Chyfweliad
<b>Sgiliau Perthnasol i Swydd</b>	Sgiliau rhyngpersonol da.	Cadw cofnodion ac ysgrifennu adroddiadau.	Ffurflen Gais a Chyfweliad
	Gweithio'n annibynnol ac fel aelod o dim	Y gallu i nodi risg a gweithredu camau perthnasol.	Ffurflen Gais a Chyfweliad
	Blaenoriaethu a threfnu gwaith		Ffurflen Gais a Chyfweliad
	Sgiliau gwranddo effeithiol		Ffurflen Gais a Chyfweliad
	Rheoli amser yn effeithiol		Ffurflen Gais a Chyfweliad
	Sgiliau technoleg gwybodaeth.		Ffurflen Gais a Chyfweliad
	Trin gwybodaeth sensitif a chyfrinachol.		Ffurflen Gais a Chyfweliad
	Cyfathrebu mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd yn y Gymraeg a Saesneg.		Ffurflen Gais a Chyfweliad
	Y gallu i adnabod risg.		Ffurflen Gais a Chyfweliad
<b>Arall</b>		Trwydded Yrru Llawn.	Ffurflen Gais a Chyfweliad
<b>Iaith</b>	Gallu cyfathrebu'n ysgrifenedig ac ar lafar yn Gymraeg a Saesneg		Ffurflen Gais a Chyfweliad